Taliesin

THE GREAT HALL
Y NEUADD FAWR

Swansea University
Prifysgol Abertawe

PRIVACY POLICY
POLISI PREIFATRWYDD

September/Medi 2018

TALIESIN
& THE GREAT HALL/
Y NEUADD FAWR

www.taliesinartscentre.co.uk
Taliesin Box Office: 01792 60 20 60

www.greathallswansea.co.uk
Great Hall Box Office: 01792 60 49 00 / 01792 60 49 99

Who we are

Taliesin Arts Centre and the Great Hall offer a cultural programme for visitors to Swansea University. When you use our services, you trust us with your information. This Privacy Policy is meant to help you understand what data we collect, why we collect it, and what we do with it. This is important; we hope you will take time to read it carefully.

Types of data we collect

Ticketing Data

When you purchase tickets, gift vouchers, or membership through our Box Office at Taliesin or the Great Hall, your name, email, phone number, and address data will be stored by our ticketing partner, **Ticketsolve** and shared with **Global Payments (payment gateway)**.

Online Data

When you book tickets online, your data is shared between **Taliesin and the Great Hall**, **Global Payments (payment gateway)**, and **Ticketsolve (ticketing platform)** in order to process the transaction. Where patrons have opted to provide their details for mailings, data will be shared with **MailChimp** (our email partner).

Customer Correspondence

If you contact us, we may keep a record of that correspondence.

Ticketsolve acts as a data processor on behalf of **Taliesin** (data controller).

Ticketsolve, Global Payments, MailChimp and Swansea University have implemented appropriate technological measures to protect against accidental loss, destruction, damage, alteration or disclosure.

For more information, please see their privacy notices here:

- MailChimp - https://mailchimp.com/legal/privacy/
- Ticketsolve - https://www.ticketsolve.com/privacy-policy/
- Global Payments - https://www.globalpaymentsinc.com/en-gb/accept-payments/ecommerce/privacy
- Swansea University - http://www.swansea.ac.uk/the-university/world-class/vicechancellorsoffice/compliance/dataprotection/dataprotectionpolicy/securityofpersonaldata/

Website Cookies

When someone visits our website (www.taliesinartscentre.co.uk) we use third party services to collect standard internet log information and details of visitor behaviour patterns. We do this to find out things such as the number of visitors to the various parts of the site, types of devices used, and length of time on pages.

Cookie	Data	Purpose
Universal Analytics (Google)	_ga _gali _gat_UA-XXXX _gid	These cookies are used to collect information about how visitors use our website. We use the information to compile reports and to help us improve the website. The cookies collect information in an anonymous form, including the number of visitors to the website, device used, where visitors have come to the website from and the pages they visited.

Disabling cookies

You can prevent the setting of cookies by adjusting the settings on your browser. Be aware that disabling cookies will affect the functionality of this and many other websites that you visit. Disabling cookies may result in the disabling of certain functionality and features of our website.

Record retention periods

GDPR set's out the principle that personal data shall not be kept for longer than is necessary for the purpose or purposes for which it was obtained.

Taliesin and the Great Hall have the following data retention periods in place:

Category	Retention Period
Customer Data	
Customer data on Ticketsolve	Removed after 25 years of inactivity
Customer data on Mailchimp	Removed after 25 years of inactivity
Customer correspondence	Removed after 5 years

Mailing Lists

- When you **consent** and sign up for our mailing list, either at the time of booking or separately through our sign up form, we collect personal information. We use that

information for a couple of reasons: to share information such as upcoming shows; to contact you if we need to obtain or provide additional information; to check our records are right and to check every now and then that you're happy and satisfied. We also gather statistics around email opening and clicks using industry standard technologies to help us monitor and improve our marketing. You can unsubscribe by clicking the unsubscribe link at the bottom of any of our emails or by emailing our data protection officer at info@taliesinartscentre.co.uk.

- We also, occasionally send event information that is of a **legitimate interest** to customers who have bought tickets with us, that may be relevant and of interest to them.

- We will not sell, distribute or lease your personal information to third parties unless we have your permission or are required by law to do so. Occasionally we may circulate information regarding events at a neighbouring venue on their behalf. Third party permission is requested only on an individual event basis as requested by the third party and is granted only with the permission of the visitor/customer.

Changes to Our Privacy Policy

We may review and update this policy. This version was adopted on 18/05/2018.

For Taliesin and the Great Hall full Terms and Conditions**:**
https://www.taliesinartscentre.co.uk/en/policies-and-procedures.htm

Access to your personal information
You are entitled to view, amend, or delete the personal information that we hold. Email your request to our data protection officer at info@taliesinartscentre.co.uk or telephone us on 01792 602060.

Terms & Conditions

By purchasing a ticket by telephone, over the counter, or online, and attending this/these event(s) you are accepting the following Terms & Conditions and agreeing to be bound by them and to comply by all applicable laws and regulations.

- Attendees should be present at the venue to register or collect tickets at least 30 minutes in advance of event start times.

- Once purchased tickets are not refundable. However, we offer credits, valid for 6 months, which you can use for an alternative performance. Tickets must be returned and received at the Taliesin or the Great Hall Box Office at least 24 hours in advance of the screening or performance. A fee will be charged per ticket for this service.
- If you lose your tickets, we are able to reprint them for a fee, as long as a named customer booked the tickets.
- No refunds will be given except for cancelled events.
- All tickets will be offered subject to availability at the time of booking. Please check your order/tickets carefully as mistakes cannot always be rectified after the event.
- The management reserves the right to introduce discounts and other price changes without notice.
- Event management reserve the right of admission, even when tickets have been purchased. and may, on occasions, have to conduct security searches to ensure the safety of patrons.
- In exceptional circumstances, the management reserves the right to offer alternative seats to those specified on the ticket.
- Please be advised to check and make allowances for any events likely to delay your arrival at the theatre in time for the start of the show. Every effort to admit latecomers will be made at a suitable break in the event, but admission cannot always be guaranteed.
- Tickets are required for each child (age 2 and above) attending a performance. Where your child is under 2 years of age and is sitting on your lap, you should purchase a Parent & Baby lap seat. Parents are reminded that some performances are not suitable for young children.
- The management reserves the right to remove from the theatre, without refund, any ticket holder who disrupts other audience members' enjoyment.
- From time to time, official show merchandise may be available from the promoters. The theatre cannot accept any responsibility for the sale of such merchandise.
- Special Effects - If you are concerned about inclusion of any special effects during a performance, please ask at the time of booking, although the inclusion of these may not be notified to the theatre until the actual performance dates. Please check the foyer notice for more information when you visit the theatre.
- Event management accepts no responsibility for possessions lost or stolen on the premises.
- If you encounter any problems at a show please let one of our Front of House staff know immediately and they will endeavour to rectify the problem.
- Unless otherwise indicated, all graphics, logos and commercial markings are registered trademarks. You may not use, copy, reproduce, republish, upload, post, transmit, distribute or modify any Trademarks in any way, including in advertising or publicity pertaining to or distribution of materials, without prior written consent.
- The use of cameras or recording equipment is strictly forbidden.
- The promoter reserves the right to make any changes to the advertised programme.

- Event management reserve the right to make changes to these Terms & Conditions at any time without prior notice.

Privacy Policy:

- We respect your privacy and protect all personal information you provide when buying tickets. For our full privacy policy please visit: https://www.taliesinartscentre.co.uk/en/policies-and-procedures.htm

Polisi Preifatrwydd

Pwy ydyn ni?

Mae Canolfan Celfyddydau Taliesin a'r Neuadd Fawr yn cynnig rhaglen ddiwylliannol i ymwelwyr â Phrifysgol Abertawe. Wrth i chi ddefnyddio'n gwasanaethau, rydych yn ymddiried ynom i gadw'ch gwybodaeth yn ddiogel. Nod y Polisi Preifatrwydd hwn yw eich helpu i ddeall pa ddata rydym yn ei gasglu, pam rydym yn ei gasglu a sut rydym yn ei ddefnyddio. Mae hyn yn bwysig; gobeithiwn y byddwch yn neilltuo amser i'w ddarllen yn ofalus.

Y mathau o ddata rydym yn eu casglu

Data am Docynnau

Pan fyddwch yn prynu tocynnau, talebau rhodd neu aelodaeth drwy ein Swyddfa Docynnau yng Nghanolfan Taliesin neu'r Neuadd Fawr, caiff manylion eich enw, eich e-bost, eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad eu storio gan ein partner gwerthu tocynnau, **Ticketsolve** a'u rhannu â **Global Payments (porth taliadau).**

Data Ar-lein

Wrth i chi archebu tocynnau ar-lein, caiff eich data ei rannu rhwng **Taliesin a'r Neuadd Fawr, Global Payments (porth taliadau)** a **Ticketsolve (platfform gwerthu tocynnau)** er mwyn prosesu'ch archeb. Lle bo cwsmeriaid wedi dewis darparu eu manylion ar gyfer rhestrau postio, caiff data ei rannu â **MailChimp** (ein partner e-bostio).

Gohebiaeth Cwsmeriaid

Os ydych yn cysylltu â ni, gallwn gadw cofnod o'r ohebiaeth honno.

Mae **Ticketsolve** yn gweithredu fel prosesydd data ar ran **Taliesin** (rheolydd data).

Mae **Ticketsolve, Global Payments, MailChimp** a **Phrifysgol Abertawe** wedi rhoi mesurau technolegol priodol ar waith i atal eich data rhag cael ei golli, ei ddinistrio, ei ddifrodi, ei newid neu ei ddatgelu'n ddamweiniol.

Am ragor o wybodaeth, gallwch ddarllen eu hysbysiadau preifatrwydd yma:

- MailChimp - https://mailchimp.com/legal/privacy/
- Ticketsolve - https://www.ticketsolve.com/privacy-policy/
- Global Payments - https://www.globalpaymentsinc.com/en-gb/accept-payments/ecommerce/privacy
- Prifysgol Abertawe - http://www.swansea.ac.uk/the-university/world-class/vicechancellorsoffice/compliance/dataprotection/dataprotectionpolicy/securityofpersonaldata/

Gwefan

Pan fydd rhywun yn ymweld â'n gwefan (taliesinartscentre.co.uk), rydym yn defnyddio gwasanaethau trydydd parti i gasglu gwybodaeth data safonol ar gyfer y rhyngrwyd a manylion am batrymau ymddygiad ymwelwyr. Rydym yn gwneud hyn er mwyn casglu gwybodaeth am bethau megis nifer y bobl sy'n ymweld â gwahanol rannau o'r wefan, y math o ddyfeisiau a ddefnyddir a'r amser maen nhw'n ei dreulio ar dudalennau.

Cwci	Data	Diben
Universal Analytics (Google)	_ga _gali _gat_UA-XXXX _gid	Defnyddir y cwcis hyn i gasglu gwybodaeth am sut mae ymwelwyr yn defnyddio ein gwefan. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth i lunio adroddiadau ac i'n helpu i wella'r wefan. Mae'r cwcis yn casglu gwybodaeth ar ffurf anhysbys, gan gynnwys nifer yr ymwelwyr â'r wefan, y ddyfais a ddefnyddir, o ble mae ymwelwyr yn dod i'n gwefan ni a'r tudalennau maent wedi ymweld â nhw.

Analluogi cwcis

Gallwch analluogi cwcis drwy addasu'r gosodiadau yn eich porwr. Sylwer, bydd analluogi cwcis yn effeithio ar sut mae'r wefan hon a nifer o wefannau eraill yn gweithio. Gall analluogi cwcis olygu na fydd rhai nodweddion ar ein gwefan yn gweithio.

Cyfnodau cadw cofnodion

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn pennu'r egwyddor na ddylid cadw data am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol at y diben neu'r dibenion a oedd yn sail ei gasglu.
Mae Taliesin a'r Neuadd Fawr yn cadw data am y cyfnodau canlynol:

Categori	Cyfnod Cadw
Data Cwsmeriaid	
Data cwsmeriaid ar Ticketsolve	Caiff ei ddileu ar ôl 25 mlynedd o ddiffyg gweithgarwch
Data cwsmeriaid ar Mailchimp	Caiff ei ddileu ar ôl 25 mlynedd o ddiffyg gweithgarwch
Gohebiaeth cwsmeriaid	Caiff ei ddileu ar ôl 5 mlynedd

Rhestrau Postio

- Pan fyddwch yn **cydsynio** ac yn cofrestru am ein rhestr bostio, naill ai ar adeg archebu neu ar wahân drwy ein ffurflen gofrestru, rydym yn casglu gwybodaeth bersonol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth honno am nifer o resymau: i rannu gwybodaeth, er enghraifft, am sioeau sydd ar ddod; i gysylltu â chi os bydd angen i ni ofyn am wybodaeth ychwanegol neu ei darparu; i gadarnhau bod ein cofnodion yn gywir ac i wirio bob hyn a hyn a ydych yn hapus ac yn fodlon. Rydym hefyd yn casglu ystadegau ar sail e-byst sy'n cael eu hagor a chliciedau, gan ddefnyddio technolegau safonol y diwydiant i'n helpu i fonitro a gwella'n gweithgarwch marchnata. Gallwch ddatdanysgrifio drwy glicio ar y ddolen datdanysgrifio ar waelod unrhyw un o'n negeseuon e-bost, neu drwy e-bostio ein swyddog diogelu data yn info@taliesinartscentre.co.uk.

- O bryd i'w gilydd, byddwn hefyd yn anfon gwybodaeth **er budd dilys** cwsmeriaid sydd wedi prynu tocynnau gennym, a allai fod yn berthnasol ac o ddiddordeb iddynt.

- Ni fyddwn yn gwerthu, yn dosbarthu, nac yn prydlesu'ch gwybodaeth bersonol i drydydd parti on oni bai bod eich caniatâd gennym neu oni bai bod hynny'n ofynnol dan y gyfraith. O bryd i'w gilydd, gallwn ddosbarthu gwybodaeth am ddigwyddiadau mewn lleoliad cyfagos, ar ran y lleoliad hwnnw. Gofynnir am ganiatâd trydydd parti ar sail digwyddiad unigol yn unig, yn ôl cais y trydydd parti, a chaiff gwybodaeth ei darparu â chaniatâd yr ymwelydd/cwsmer yn unig.

Newidiadau yn ein Polisi Preifatrwydd

Gallwn adolygu a diweddaru'r polisi hwn. Mabwysiadwyd y fersiwn hon ar 18/05/2018

I ddarllen amodau a thelerau llawn Taliesin a'r Neuadd Fawr:
https://www.taliesinartscentre.co.uk/en/policies-and-procedures.htm

Mynediad i'ch gwybodaeth bersonol
Mae gennych hawl i weld, diwygio neu ddileu'r wybodaeth bersonol sydd gennym. E-bostiwch eich cais i'n swyddog diogelu data yn info@taliesinartscentre.co.uk neu ffoniwch ni ar 01792 602060.

Amodau a Thelerau

Drwy brynu tocyn dros y ffôn, y cownter neu ar-lein, a mynychu'r digwyddiad hwn/digwyddiadau hyn, rydych yn derbyn yr amodau a thelerau canlynol ac yn cytuno i gael eich rhwymo ganddynt ac i gydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.

- Dylai cwsmeriaid fod yn bresennol yn y digwyddiad i gofrestru neu i gasglu tocynnau o leiaf 30 munud cyn amser dechrau'r digwyddiad.

- Ni fyddwn yn ad-dalu pris tocynnau ar ôl i chi eu prynu. Fodd bynnag, rydym yn cynnig credydau, sy'n ddilys am chwe mis, y gallwch eu defnyddio ar gyfer perfformiad arall. Rhaid i docynnau gael eu dychwelyd a'u derbyn yn Swyddfa Docynnau Taliesin neu Swyddfa Docynnau'r Neuadd Fawr o leiaf 24 awr cyn y ffilm neu'r perfformiad. Codir tâl fesul tocyn am y gwasanaeth hwn.
- Os ydych yn colli eich tocynnau, gallwn eu hailargraffu am ffi, ar yr amod bod y tocynnau wedi'u harchebu gan gwsmer a enwyd.
- Ni fyddwn yn ad-dalu pris tocynnau heblaw am ddigwyddiadau sy'n cael eu canslo.
- Cynigir yr holl docynnau'n amodol ar argaeledd ar adeg archebu. Gwiriwch eich archeb/tocynnau yn ofalus, oherwydd efallai na fydd modd unioni camgymeriadau nes ymlaen.
- Mae'r rheolwyr yn cadw'r hawl i gyflwyno gostyngiadau ac i newid prisiau fel arall heb rybudd.
- Mae rheolwyr y digwyddiad yn cadw'r hawl i reoli mynediad, hyd yn oed lle prynwyd tocynnau. Ar adegau, mae'n bosib y bydd rhaid cynnal chwiliadau diogelwch er mwyn sicrhau diogelwch cwsmeriaid.
- Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'r rheolwyr yn cadw'r hawl i gynnig seddau gwahanol i'r rhai a nodir ar y tocyn.
- Dylech wirio am unrhyw amgylchiadau sy'n debygol o'ch rhwystro rhag cyrraedd y theatr mewn pryd am y sioe, a chaniatáu digon o amser. Gwneir pob ymdrech i roi mynediad i hwyrddyfodiaid yn ystod seibiant priodol yn y digwyddiad, ond ni ellir gwarantu mynediad bob amser.
- Bydd angen tocyn ar bob plentyn (2 oed ac yn hŷn) sy'n mynychu perfformiad. Os yw eich plentyn yn iau na dwy flwydd oed, ac yn eistedd ar eich gliniau, dylech brynu tocyn sedd Rhiant a Babi. Atgoffir rhieni nad yw rhai perfformiadau'n addas i blant ifanc.
- Mae'r rheolwyr yn cadw'r hawl i fynnu bod unrhyw ddeiliad tocyn sy'n amharu ar fwynhad aelodau eraill y gynulleidfa yn gadael y theatr, heb ad-dalu pris ei docyn.
- O bryd i'w gilydd, bydd nwyddau swyddogol sioe ar werth gan yr hyrwyddwyr. Ni all y theatr dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am werthiant nwyddau o'r fath.
- Effeithiau arbennig - os ydych yn poeni am unrhyw effeithiau arbennig mewn perfformiad, holwch am y rhain wrth archebu tocyn. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd gan y theatr unrhyw wybodaeth tan ddyddiad y perfformiad ei hun. Cadwch lygad ar hysbysiadau yn y cyntedd am fwy o wybodaeth wrth i chi ymweld â'r theatr.
- Nid yw rheolwyr y digwyddiad yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am eiddo sy'n cael ei golli neu ei ladrata yn yr adeiladau.
- Os cewch unrhyw broblemau yn ystod sioe, rhowch wybod ar unwaith i aelod o staff Blaen y Tŷ a byddant yn ceisio datrys y broblem.
- Oni nodir fel arall, mae pob graffigwaith, logo a marc masnachol yn nodau masnach cofrestredig. Ni chewch ddefnyddio, copïo, atgynhyrchu, ailgyhoeddi, lanlwytho, postio, darlledu, dosbarthu nac addasu unrhyw nodau masnach mewn unrhyw ffordd,

gan gynnwys mewn hysbysebion neu gyhoeddusrwydd neu wrth ddosbarthu deunyddiau, heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw.

- Ni chaniateir defnyddio camerâu na chyfarpar recordio mewn unrhyw amgylchiadau.
- Mae'r hyrwyddwr yn cadw'r hawl i newid y rhaglen a hysbysebwyd.
- Mae rheolwyr y digwyddiad yn cadw'r hawl i newid yr amodau a thelerau hyn unrhyw bryd heb rybudd.

Polisi Preifatrwydd:

- Rydym yn parchu'ch preifatrwydd ac yn diogelu'r holl wybodaeth bersonol rydych yn ei darparu wrth brynu tocynnau. I ddarllen ein polisi preifatrwydd llawn, ewch i: https://www.taliesinartscentre.co.uk/en/policies-and-procedures.htm